# Monmouthshire Select Committee Minutes

**Meeting of Pwyllgor Perfformiad a Throsolwg held at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr USK on Dydd Mawrth, 19eg Tachwedd, 2024 at 10.00 am**

| **Councillors Present** | **Officers in Attendance** |
| --- | --- |
| County Councillor Alistair Neill, (Chair)<br>County Councillor (Vice Chair)<br><br>County Councillors: John Crook, Meirion Howells, Paul Pavia, Peter Strong, Ann Webb, Su McConnel, Emma Bryn, Tony Easson, Phil Murphy, Maureen Powell and Sue Riley<br><br>Also in attendance County Councillors: Mary Ann Brocklesby, Martyn Groucutt, | Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu<br>Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu<br>Will Mclean, Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc<br>Matthew Gatehouse, Pennaeth Polisi a Llywodraethiant<br>Richard Jones, Rheolwr Perfformiad a Dirnadaeth Data<br>Hannah Carter, Dadansoddwr Perfformiad<br>Craig O'Connor, Pennaeth Cynllunio<br>Keeva McDermott, Vulnerable Learners Lead<br>Andrew Jones, Development Services Manager<br>Amy Longford, Rheolwr Treftadaeth<br>Philip Thomas, Rheolwr Gwasanaethau Datblygu |

**APOLOGIES:** Councillors Jill Bond, Steven Garratt and Rachel Garrick

1. **Datganiadau o Fuddiant**

   Dim.

2. **Fforwm Agored i'r Cyhoedd**

   Dim

3. **Gwaharddiadau Ysgol**

   Cyflwynwyd yr adroddiad gan Aelod Cabinet Martyn Groucott a Morwenna Wagstaff. Atebodd Dr Wagstaff gwestiynau'r aelodau gyda Keeva McDermott:

   - Gofynnodd y Cadeirydd am eglurdeb rhwng y nifer o plant a waharddwyd yn 5.2 a 5.3 yr adroddiad. Eglurwyd fod y tabl yn yr adroddiad at achosion o waharddiadau cyfnod penodol a all amrywio o hanner diwrnod i gyfnod hirach. Mae'r rhif 520 yn cynrychioli'r dysgwyr unigryw a brofodd waharddiadau, tra bod yr 1810 achos yn cynnwys gwahardd mwy nag unwaith ar gyfer rhai dysgwyr. Felly, cafodd rhai plant eu gwahardd sawl tro, gan arwain at y nifer uwch o achosion.
   - Gofynnodd aelod am ba mor hir y medrir priodoli problemau i'r pandemig ac os y bydd y problem yn parhau am genhedlaeth. Pwysleisiodd Dr Wagstaff y pryder a'r straen a achosodd y pandemig ac esboniodd fod ei effaith ar blant yn amrywio yn dibynnu ar eu hoedran a'r ffactorau diogelu yn eu bywydau. Fe wnaeth y pandemig ymyrryd ar gamau datblygu allweddol, gan effeithio ar sgiliau cymdeithasol, rheoleiddio emosiynol ac ymddygiad. Er mai'r gobaith yw y bydd ei effaith yn dirwyn i ben, gall rhai plant yn arbennig y rhai mwyaf bregus brofi effeithiau hirdymor

- Gofynnwyd os y gallai'r nifer o blant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim sy'n absennol ar hyn o bryd ar unrhyw ddiwrnod penodol (1 mewn 4) waethygu. Nododd Dr Wagstaff fod llawer o blant a gafodd eu haddysgu gartref yn ystod y pandemig yn awr yn ei chael yn heriol i ddychwelyd i amgylchedd prysur a swnllyd ysgol a bod yn well gan rai plant, yn arbennig y rhai gyda anghenion cymhleth neu rwystrau i ddysgu, arddull dysgu ar-lein ac yn ei chael yn anodd cynefino ag ysgol draddodiadol. Bu cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol oherwydd iechyd meddwl ac anghenion emosiynol, yn arbennig bryder am ddychwelyd i'r ysgol. Y gobaith yw galluogi'r plant hyn i symud ymlaen i opsiynau cadarnhaol ar ôl ysgol a'u hatal rhag dod yn NEET (heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant).
- Gofynnodd aelod os y byddai'n bosibl cael dadansoddiad manwl o waharddiadau yn ôl ysgol, yn cynnwys y straeon tu ôl iddynt, efallai mewn sesiwn gaeedig. Er y caiff dadansoddiad manwl o waharddiadau yn ôl ysgol eu craffu drwy wahanol wiriadau rhwystrau a gwrthbwysau, yn cynnwys cyfarfodydd Pwyllgor Disgyblaeth Disgyblion ac apeliadau annibynnol, esboniwyd y gallai rhannu gwybodaeth mor fanwl yn gyhoeddus achosi perygl y gellid adnabod unigolion. Fodd bynnag, efallai y gallai fod yn bosibl rhoi'r wybodaeth hon mewn sesiwn gaeedig ar gyfer dibenion craffu. Awgrymodd y Cadeirydd fod aelodau'n cysylltu'n uniongyrchol gyda'r tîm am fater o gonsyrn neilltuol.
- Gofynnwyd am eglurder am y cysylltiad rhwng penodiad y swyddog Data Plant a Phobl Ifanc a gwaharddiadau. Eglurwyd fod penodi'r Swyddog Data wedi gwella casglu a defnyddio data am waharddiadau, gan wneud y broses gofnodi yn fwy cadarn ac yn symlach. Aeth llawer o waith i mewn i sut i reoli ailintegreiddio yn ddiogel, gan ddefnyddio asesiadau risg ymddygiad dysgwyr.
- Gofynnwyd am fwy o fanylion am reoli disgyblion sy'n dychwelyd i addysg brif ffrwd o'r Uned Cyfeirio Disgyblion, yn arbennig o gofio am y gostyngiadau mewn staff ysgol. Esboniwyd fod proses asesu a rheoli risg gynhwysfawr yn ei lle. Mae hyn yn cynnwys cydweithio aml-asiantaeth i sicrhau y cafodd y risg ei ostwng yn ddigonol cyn ailintegreiddio. Mae'r broses yn cynnwys dychwelyd mewn camau, cynyddu cymorth mewn cyfnodau risg uchel a monitro parhaus i sicrhau diogelwch a llesiant.
- Gofynnodd data os oes data ar gael cyn 2021 a data cenedlaethol i gymharu. Esboniodd y swyddog fod Llywodraeth Cymru yn darparu data cenedlaethol ar gyfer cymharu ond fel arfer mae flwyddyn ac ychydig ar ôl iddo ddigwydd. Mae'r awdurdod lleol hefyd yn edrych ar gymariaethau gyda phartneriaid consortia, ond ni chafwyd caniatâd partneriaid eraill i rannu'r data hwn. Felly nid yw'r data cenedlaethol diweddaraf ar gael hyd yma ar gyfer y cyfnod dan sylw.
- Gofynnwyd os yw'n bosibl cyfrif cost hirdymor gwaharddiad ac felly gyfrif yr arbedion a wneir drwy ymyriad. Atebodd swyddogion fod data tueddiadau tair blynedd Llywodraeth Cymru yn dal yn anghyflawn am y cyfnod dan sylw felly mae'n anodd rhoi dadansoddiad cynhwysfawr. Mae dadansoddi data gwaharddiadau nid yn unig yn cynnwys edrych ar nifer gwaharddiadau ond hefyd yn ystyried cosbau mewnol nad ydynt efallai yn cael eu cofnodi yn yr un ffordd ond sy'n dal i effeithio ar addysg y plentyn. Nid yw data NEET ar gael yn rhwydd a byddai'n anodd ei gadarnhau. Fodd bynnag, gwneir ymdrechion i ystyried gwahanol lwybrau a chynigion cymysg i atal gwaharddiadau a chefnogi ailintegreiddio, er fod heriau gydag adnoddau, tebyg i lai o gymorth ar gyfer profiad gwaith.
- Gofynnodd aelod os oes proffil dros gyfnod yn edrych ar faterion oedd yn bodoli hyd yn oed cyn y pandemig, tebyg i brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, heriau niwro-ddatblygiadol ac yn y blaen. Esboniodd Dr Wagstaff fod y dadansoddiad data yn awr yn fwy cadarn a bod yr awdurdod lleol yn monitro a bod ganddo broffil cryf o ddysgwyr bregus, yn cynnwys y rhai gyda rhwystrau i ddysgu, anghenion dysgu ychwanegol, cysylltiad gyda gofal cymdeithasol a'r rhai sy'n byw mewn tlodi. Dengys y dadansoddiad fod y grwpiau hyn yn fwy tebygol o gael eu gwahardd, ac mae ffocws ar sicrhau fod ysgolion yn gwneud addasiadau rhesymol i gefnogi'r dysgwyr hyn.

- Gofynnwyd ymhellach am ymarferoldeb y galluedd ychwanegol i gefnogi disgyblion, teuluoedd ac ysgolion o gofio am y diffyg sylweddol ar gyfer yr Uned Cyfeirio Disgyblion. Atebodd Dr Wagstaff y bu galluedd yr Uned yn bryder, gyda'r boblogaeth yn yr unedau yn dyblu. Mae'r awdurdod lleol yn ymateb drwy gynyddu galluedd a symud i ganolfannau newydd i roi gwell darpariaeth. Y nod yw cynnig ymyriadau ataliol i osgoi gwaharddiadau parhaol a rheoli ailintegreiddio yn ddiogel.
- Gofynnwyd am eglurdeb am gynnig yr awdurdod ar gyfer addysg heblaw yn yr ysgol. Mae'r cynnig hwn yn eang a chymhleth, yn cynnwys yr Uned Cyfeirio Disgyblion, darpariaeth feddygol ar gyfer plant sy'n rhy dost i fynychu'r ysgol a dysgu grŵp bach. Mae'r ddarpariaeth yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn amrywio yn seiliedig ar anghenion y plentyn, gyda'r nod bob amser i ailintegreiddio'r plentyn yn ôl i'r ysgol.
- Gofynnwyd os yw'r gweithdrefnau sicrwydd ansawdd ar gyfer addysg heblaw yn yr ysgol yn cyrraedd y trylwyrdeb a nodir yn adroddiad Estyn. Esboniodd Dr Wagstaff fod yr awdurdod lleol wedi datblygu prosesau sicrwydd ansawdd mwy cadarn ar gyfer addysg heblaw yn yr ysgol, yn cynnwys swyddog comisiynu a chylch adolygu wedi ei strwythuro. Mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau fod y ddarpariaeth yn diwallu anghenion dysgwyr ac yn cydymffurfio gyda gofynion y Ddeddf ADY.
- Gofynnodd aelod faint o alluedd sydd o fewn yr ysgolion i blant gael eu gwahardd o'r ystafell ddosbarth ond dal i gael eu cadw yn yr ysgol, gan gael eu haddysgu yn yr ysgol yn hytrach na chael eu gwahardd a'u hanfon gartref. Esboniodd y swyddogion fod gan ysgolion wahanol ymyriadau a darpariaethau ar gyfer plant a gaiff eu gwahardd o'r ystafell ddosbarth ond yn dal i fod o fewn yr ysgol. Mae yn cynnwys cynorthwywyr cymorth llythrennedd emosiynol, cymorth mewnol a chymorth arall wedi ei dargedu i gyfarch anghenion penodol. Mae'r dull yn amrywio yn ôl ysgol ac mae disgwyliad fod ysgolion yn gwneud addasiadau rhesymol i gefnogi'r dysgwyr hyn.
- Gofynnodd aelod sut mae'r awdurdod yn sicrhau lles staff sy'n delio gydag ymddygiad sy'n tarfu ac yn achosi risg a gofid gan blant bregus. Esboniodd y swyddogion fod lles staff yn ffocws sylweddol, gyda gwahanol brosiectau a chynlluniau peilot yn eu lle i gefnogi eu lles, yn cynnwys cynlluniau peilot goruchwylio. Caiff iechyd a diogelwch staff eu hystyried mewn asesiadau risg a chynlluniau ailintegreiddio ar gyfer myfyrwyr. Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod yr effaith ar staff a gwaith i sicrhau eu diogelwch a'u llesiant drwy brosesau cynhwysfawr a dulliau cefnogaeth.

**Crynodeb y Cadeirydd:**

Mynegodd aelodau ddiolch am y Seminar Aelodau ddefnyddiol a gynhaliwyd ar y pwnc hwn yn ddiweddar a diolchwyd i staff ym mhob ysgol am eu gwaith. Nododd y Cadeirydd fod y setiau sgiliau mae staff eu hangen nawr yn ehangach ac yn fwy cymhleth nag yn flaenorol, a chydnabod y penderfyniadau anodd y mae angen i Benaethiaid eu gwneud am waharddiadau. Dymunai atgoffa pob rhiant mai'r ysgol yw'r lle gorau i'w plentyn fod, yn arbennig o gofio am y gydberthynas uchel rhwng problemau cymhleth mewn bywyd a diffyg presenoldeb. Cafodd yr adroddiad a'r argymhellion eu cynnig.

## 4. <u>Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cynllunio</u>

Cafodd cyflwyniad ei roi gan Phil Thomas, gan gyflwyno'r adroddiad ac ateb cwestiynau aelodau gyda Craig O'Connor ac Andrew Jones:

- Gofynnodd aelodau am yr amserlen ar gyfer digideiddio pob microfiche a chofnodion coed. Dywedwyd fod y broses digideiddio yn bur gymhleth ac yn dibynnu llawer ar gyfyngiadau cyllideb. Gall y broses gymryd rhai blynyddoedd i'w gorffen ac nid oes amserlen benodol ar hyn o bryd. Gellid cyflymu'r broses os gellid sicrhau cyllid drwy symud data'r Gofrestrfa Tir, ond nid oes gwarant o hyn.

- Holodd aelod am y ffigurau a'r canrannau'n gysylltiedig â'r gwasanaeth cyngor cyn ymgeisio, gan nodi ei botensial fel enillydd refeniw a dywedwyd iddynt gau 264 cais yn gofyn am gyngor cyn ymgeisio a derbyn 282 cais newydd yn ystod y cyfnod 2023-2024. O'r rhai a gafodd gyngor cyn ymgeisio, arweiniodd 35 at geisiadau cynllunio, gyda 34 yn cael eu cymeradwyo ac un yn cael ei dynnu'n ôl, gan roi cyfradd llwyddiant o 100%. Roedd y refeniw o'r gwasanaeth hwn tua £55,000.
- Mynegwyd pryder am y canran isel (4.5%) o achosion gorfodaeth yn arwain at hysbysiadau a gyflwynwyd, allan o 286 achos. Esboniodd swyddogion mai dim ond am dorri difrifol ar reolau cynllunio yn y budd cyhoeddus y cymerir gweithredu gorfodaeth. Caiff llawer o achosion torri rheolau eu datrys drwy negodi neu geisiadau cynllunio ôl weithredol ac nid yw rhai achosion angen gweithredu gorfodaeth, oherwydd mân dorri rheolau neu ddiffyg hwylustod. Yn aml mae negodi anffurfiol yn datrys torri rhheolau heb yr angen am hysbysiadau ffurfiol, ac aiff pob penderfyniad drwy broses panel dirprwyedig ar gyfer craffu.
- Holodd aelod am y targed ar gyfer penderfyniadau gan aelodau yn erbyn argymhellion swyddogion, gan nodi fod y targed yn llai na 5% a gofyn sut olwg fyddai ar "da" yn y cyd-destun hwn. Esboniodd swyddogion y caiff y targed o lai na 5% ei osod gan Lywodraeth Cymru a bod rhychwant o 5-9% yn cael ei ystyried yn deg. Fe wnaethant bwysleisio y dylai penderfyniadau swyddogion cynllunio ac aelodau'r pwyllgor fod yn gydnaws yn gyffredinol, ond gan gydnabod fod y Pwyllgor Cynllunio yn bodoli i wneud dyfarniadau cytbwys er budd y cyhoedd. Nodwyd fod y ffigur presennol o 6% yn gysurus o fewn y rhychwant teg ac yn adlewyrchu'r cydweithio rhwng swyddogion ac aelodau'r pwyllgor.
- Awgrymodd aelod wella dealltwriaeth y cyhoedd o sut mae cynllunio yn gweithio, efallai drwy ddatganiad ar ddechrau pob cyfarfod cynllunio. Cydnabu swyddogion gymhlethdod y broses cynllunio a'r angen am well cyfathrebu. Fe wnaethant sôn fod rhagymadrodd yn yr agenda gyda'r egwyddorion a pholisïau allweddol, ond cytunwyd mynd â'r awgrym ymaith ac ystyried sut i wneud yr wybodaeth yn fwy cryno a dealladwy i'r cyhoedd.
- Gofynnwyd cwestiwn am y £800,000 a gesglir mewn ffioedd a pha mor aml y caiff hyn ei adolygu. Hysbyswyd aelodau fod Llywodraeth Cymru yn adolygu strwythur ffioedd a gwasanaethau cynllunio ar hyn o bryd, gyda'r ymgynghoriad ar agor hyd at 17 Ionawr. Mae'r adolygiad yn anelu i wneud gwasanaethau cynllunio yn fwy cydnerth ac y gellir adfer y costau.
- Gwnaed ymholiad am y gyfradd gweithredu isel (4.5%) o 286 cwyn am orfodaeth ac os yw hyn yn dangos yr angen am well hyfforddiant ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref. Esboniodd swyddogion y caiff llawer o achosion gorfodaeth eu datrys drwy negodi anffurfiol neu geisiadau cynllunio ôl-weithredol ac mai dim ond torri rheolau yn ddifrifol sy'n arwain at Hysbysiadau ffurfiol. Tanlinellwyd pwysigrwydd cyfathrebu a hyfforddiant ar gyfer cynghorau Cymuned a Thref i ddeall y broses orfodaeth yn well.
- Gofynnwyd cwestiwn am ffynonellau adroddiadau gorfodaeth ac os yw lefel gyfredol adroddiadau yn briodol. Dywedodd swyddogion y daw adroddiadau gan gymysgedd o breswylwyr, cynghorau tref a chynghorwyr sir. Nodwyd fod lefel bresennol adroddiadau yn hylaw ac yn angenrheidiol i gyfarch gwahanol faterion o gonsyrn, hyd yn oed os nad yw rhai achosion yn arwain at weithredu gorfodaeth ffurfiol.
- Holodd aelod am feincnodi, gan nodi absenoldeb ffigurau cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru ac awgrymu'r angen am ddull mwy safonedig at gasglu data a meincnodi ar draws awdurdodau lleol. Cydnabu'r swyddogion y rhwystredigaeth gyda diffyg data meincnodi ers 2019 ac esboniwyd fod Llywodraeth Cymru wrthi'n ymgynghori ar fframwaith newydd ar gyfer perfformiad cynllunio. Soniwyd fod y Cyngor wedi parhau i adolygu ei berfformiad yn flynyddol er diffyg gofyniad statudol a mynegwyd y gobaith y byddai'r fframwaith newydd yn cyfarch materion meincnodi. Bydd y Cadeirydd yn ystyried ffordd i wthio am i fwy o ddata meincnodi fod ar gael i swyddogion ac aelodau **– <u>GWEITHREDU</u>**
- Mynegwyd pryderon am y galluedd ar gyfer gorfodaeth a'r angen am well cyfathrebu gyda Chynghorau Cymuned a Thref. Cydnabu swyddogion yr angen am well cyfathrebu

a hyfforddiant ar gyfer Cynghorwyr Cymuned a Thref. Tanlinellwyd pwysigrwydd esbonio'r broses gorfodaeth a'r cymhlethdodau cyfreithiol sy'n gysylltiedig. Fe wnaethant hefyd sôn am y cynllun gweithredu i wella'r perthnasoedd hyn a rhoi hyfforddiant wedi ei ddiweddaru.

- Awgrymodd aelod osod diwrnod i wahodd aelodau o'r Cynghorau Cymuned a Thref ar gyfer sesiwn i wella dealltwriaeth a chyfathrebu. Cafodd yr awgrym ei groesawu a chytunwyd y gallai trefnu sesiynau o'r ffordd fod yn ffordd effeithlon i ledaenu gwybodaeth a gwella'r ddealltwriaeth ymysg Cynghorau Cymuned a Thref am brosesau cynllunio.
- Holwyd os caiff defnyddwyr gwasanaeth eu hannog i roi adborth ffurfiol neu os mai drwy gwynion gan gwsmeriaid y caiff adborth ei dderbyn yn bennaf. Er yr arferent fod â ffurflen adborth cwsmeriaid, dywedodd swyddogion y daethpwyd â hynny i ben oherwydd cyfradd ymateb isel. Fodd bynnag, maent yn cael adborth cadarnhaol a hefyd negyddol drwy gwynion a chanmoliaeth. Soniwyd eu bod yn ystyried ailgyflwyno dull ar gyfer adborth, efallai drwy anfon holiaduron gyda hysbysiadau penderfyniad.

**Crynodeb y Cadeirydd:**

Cydnabu'r Cadeirydd y perfformiad da mewn sawl maes, yn cynnwys y gyfradd uchel o geisiadau a benderfynwyd o fewn wyth wythnos (93%), cyfradd cymeradwyaeth uchel ceisiadau (97%) a llwyddiant y gwasanaeth cyngor cyn ymgeisio (cymeradwyaeth o 100% ar gyfer y rhai a ddilynodd y cyngor). Tanlinellodd bwysigrwydd gwella cyfathrebu a pherthynas gyda Chynghorau Cymuned a Thref, yn arbennig yng nghyswllt gorfodaeth. Soniodd hefyd am y bwlch rhwng disgwyliadau'r cyhoedd a'r broses orfodaeth fel y mae, gan danlinellu'r angen am well esboniad a thryloywder. Soniodd y Cadeirydd am yr angen am well dulliau ar gyfer adborth cwsmeriaid a phwysigrwydd meincnodi o gymharu ag awdurdodau eraill ac awgrymodd ymchwilio adolygiadau cymheiriaid a rhannu data perfformiad gydag awdurdodau cyfagos i wella tryloywder a gwerthuso perfformiad.

Mae'r pwyllgor yn cefnogi'r cynllun i wella cyfathrebu a rhoi hyfforddiant wedi ei ddiweddaru ar gyfer Cynghorwyr Cymuned a Thref ac mae'n awgrymu trefnu sesiynau i wahodd aelodau o'r cynghorau hyn i wella dealltwriaeth a lledaenu gwybodaeth. Dymunai'r pwyllgor ddiolch i'r swyddogion am eu hadroddiad a gwaith caled parhaus y tîm.

5. <u>**Diweddariad cynnydd y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol**</u>

Cyflwynodd Mary-Ann Brocklesby, Arweinydd y Cyngor, yr adroddiad ac ateb cwestiynau'r aelodau gyda Richard Jones a Matthew Gatehouse:

- Gofynnodd y Cadeirydd os gellid gwneud mwy i ddileu'r canfyddiad fod y Cyngor yn 'marcio ei gerdyn sgorio ei hun', o gofio am y diffyg gwybodaeth meincnodi a chymariaethau rhanbarthol neu genedlaethol yn yr adroddiad. Gofynnodd ymhellach os y gallai awdurdodau cyfagos ffurfio clystyrau gwaith. Roedd y Cynghorydd Brocklesby yn cydnabod yr angen am feincnodi a chytunodd ei bod yn bwysig cynnwys cymariaethau o'r fath lle mae data ar gael. Soniodd fod y Cyngor yn ymroddedig i wella'r agwedd hon a soniodd am asesiad cymheiriaid a gynhelir yn 2025, fydd yn rhoi gwerthusiad allanol gwrthrychol. Nododd hefyd fod y Cyngor eisoes yn dysgu ar y cyd gyda chynghorau cyfagos ac yn edrych ar ffyrdd i wella rheoli a dadansoddi data.
- Gofynnwyd am esboniad oherwydd fod nifer y busnesau a gafodd gymorth wedi gostwng gan 75%. Esboniwyd fod hyn yn bennaf oherwydd y cyfnod adrodd; dim ond chwe mis yw'r ffigur cyfredol o 42 busnes, tra bod ffigur y cyfnod blaenorol ar gyfer cyfanswm blynyddol ar gyfer 12 mis llawn 23-24. Fodd bynnag, hyd yn oed os caiff y ffigur chwe mis cyfredol ei ragamcanu ymlaen, byddai'n dal i fod yn is na'r targed ond, beth bynnag, disgwylir y bydd y nifer yn cynyddu erbyn diwedd y flwyddyn lawn, gan

wneud y gymhariaeth yn fwy ystyrlon. Mae'r diweddariad cynnydd yn cydnabod y gwaith sy'n mynd rhagddo i gefnogi busnesau a chynlluniau i barhau'r ymdrechion hyn yn y chwe mis nesaf.

- Gofynnodd aelod pam na chaiff gwaith Partneriaethau Sir Fynwy gyda'r tair fferm ar ffermio adfywiol ei gynnwys yn yr adroddiad. Atebodd y swyddog, er fod y gwaith ar ffermio adfywiol yn bwysig, bod ffocws yr adroddiad ar feysydd sylweddol yn gysylltiedig â'r fframwaith mesur. Sicrhaodd aelodau y caiff canlyniadau'r prosiect ffermio adfywiol eu cynnwys yn adroddiadau'r dyfodol, yn arbennig yr adroddiad hunanasesu ar ddiwedd y flwyddyn.
- Gofynnodd y Cadeirydd os oes unrhyw ddealltwriaeth pam fod y gyfradd sy'n manteisio ar brydau ysgol am ddim yn is mewn ardaloedd amddifadus. Cydnabu'r swyddog y cwestiwn a dywedodd fod y tîm yn monitro ac olrhain y gyfradd sy'n manteisio ar brydau ysgol am ddim. Awgrymodd mai'r tîm perthnasol byddai yn y lle gorau i roi dealltwriaeth lawnach o'r resymau am y gyfradd is sy'n manteisio mewn ardaloedd o amddifaded **–** **<u>GWEITHREDU</u>**

**Crynodeb y Cadeirydd:**

Tynnodd y Cadeirydd sylw at yr angen am wybodaeth meincnodi, bydded yn ranbarthol neu'n genedlaethol, er mwyn rhoi golwg fwy wrthrychol o berfformiad y Cyngor, gan danlinellu pwysigrwydd dileu'r canfyddiad fod y Cyngor yn marcio ei gerdyn sgorio ei hun ac ategodd y syniad o ymchwilio adolygiadau cymheiriaid gydag awdurdodau cyfagos. Roedd yn gwerthfawrogi cyfraniad yr Arweinydd y mater hwn ac yn cydnabod y gwaith sy'n mynd rhagddo i weithio'n agosach gyda chynghorau eraill a rhannu arfer gorau. Diolchodd y Cadeirydd i'r Arweinydd y swyddogion, a chynigiodd yr adroddiad.

## 6. <u>Blaenraglen Waith 2024 y Pwyllgor Craffu Perfformiad a Throsolwg a'r Rhestr Weithredu</u>

Nododd swyddogion y cafodd y pwynt cyntaf yn y Rhestr Weithredu ei gyfarch, gyda swm o wariant ymgynghoriaeth wedi ei egluro fel £1,277,584 ar gyfer 2023-24. Atgoffwyd aelodau am wahoddiadau i sesiynau briffio ar Yswiriant Corfforaethol ar 28 Tachwedd a Chynllunio Argyfwng ar 15 Ionawr.

## 7. <u>Cynllunydd Gwaith y Cyngor a'r Cabinet</u>

## 8. <u>I gadarnhau cofnodion cyfarfodydd blaenorol:</u>

- 7 Hydref 2024 (Arbennig)
- 8 Hydref 2024 (Arbennig)
- 15 Hydref 2024

Cytunwyd ar y cofnodion.

## 9. <u>Cyfarfod nesaf: 3ydd Rhagfyr 2024</u>

3 Rhagfyr 2024

The meeting ended at **1.17 pm**